

## **Cyngor Cymuned Llanelian (257)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Medi 16, 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths Thomas D Jones T Elfyn Hughes  
Helen Hughes Glenys Jones Cyng. Wil Hughes

Ymddiheuriadau: Hefina Williams David Gerrard John Griffiths

### **1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod**

### **2 Datgan Diddordeb**

Wil Hughes – Materion cynllunio

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig TD Jones, Eilio T Elfyn Hughes.

### **4 Materion yn Codi**

4.1 Materion Parcio - darllenwyd e-bost a dderbyniwyd gan Huw Percy yn ymdrin â'r mater. Mynegwyd siom yr aelodau nad oedd y Cyngor Sir wedi ystyried eu pryderon nac ychwaith gwranddo ar yr hyn oedd gan y Cyngor Cymuned i ddweud. Bydd Cyng. Wil Hughes yn cysylltu â Dewi Williams i weld os oes modd symud ymlaen. WH

#### **4.2 Mynwent Llanelian –**

- Giât - Cafwyd mwy o brisiau am drin y giât (dros £2k) a hefyd am giât newydd (bron i £7k). Nid oes modd dadgofrestru'r giât ac mae wedi ei chynnwys yn rhan o'r Eglwys. Penderfynwyd anfon arian Mrs Mair Morris yn ôl gan ddatgan siom nad oedd modd cael giât newydd ar hyn o bryd. Gofynnwyd l'r Clerc gysylltu â CADW eu hunain i ofyn am gymorth ac i weld os oes grantiau ar gael i dalu am waith trin a thrwsio. CET
- Llwybrau - Dim ond WE Jones sydd wedi datgan diddordeb yn y gwaith ac wedi rhoi pris. Fe gytunwyd y dylid cael llwybr tarmac drwy gydol y fynwent, ac fe ofynnwyd i'r Clerc geisio cael prisiau eraill er cymhariaeth cyn gosod y gwaith. CET
- Meinciau - Cafwyd Wybod bod teulu Heany am osod main newydd yn lle yr un presennol gan fod ei gyflwr wedi dirywio. Cafwyd cais gan M Herbert yn holi tybed byddai modd gosod mainc fel rhan o'r prosiect newydd. Cytuno y dylai'r is-bwyllgor gwrdd i drafod y rheolau yn ymwneud a meinciau a'r cytundeb a theuluoedd sydd am osod rhai er cof. CET

4.3 Gwobr Gwyn Roberts – er gwybodaeth, fe gafodd y wobwr ei gyflwyno i Llinos Owen eleni.

### **5 Cae Chwarae**

5.1 Archwiliad - mae ROSPA wedi bod yn archwilio'r cae chwarae ac mae rhai pethau wedi eu nodi. Mae risg gyffredinol y cae chwarae yn parhau yn isel. Cytuno dylai'r is-bwyllgor gyfarfod i drafod y camau nesaf. CET

5.2 Biniâu – cyflwynwyd prisiau am finiau newydd a gwahanol opsiynau am y bin sydd yno ar hyn o bryd. Cytuno y dylai'r is-bwyllgor gael y rhyddid i drafod a chymryd y camau angenrheidiol. CET

5.3 Grantiau - mae peth arian wedi ei sicrhau erbyn hyn - £1000 gan Magnox (Wylfa), £2923 gan Gronfa Elusennol Cyngor Môn. Mae ceisiadau hefyd wedi eu cyflwyno i Grŵp Cynefin ac i'r 'Postcode Lottery'.

5.4 Cwynion - Mae nifer o gwynion wedi bod yn ymwneud ag arogl yn y cae chwarae drwy 'facebook'. Deallwyd bod Dwr Cymru wedi bod yn gwneud peth gwaith yn yr ardal yn ddiweddar i ddatrys y broblem. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r broblem ac wedi bod yn mynegi ei pryder a thynu sylw Dwr Cymru at y broblem ers peth amser. Cytuno y dylid anfon copi o'r llythyr a dderbyniwyd gan dwr Cymru a gofyn i'r unigolion ddod yn ôl atom os ydi'r broblem yn parhau. Cafwyd wybod bod sbwriel yn parhau yn broblem a bod gwydr wedi ei chwalu gan y peiriant torri gwair ond bod y darnau i gyd wedi eu casglu. CET

### **5 Cynllunio**

5.1 Trafodwyd chwe chais -

- Pen Parc – dim sylw
- Henblas – dim sylw
- Bryn Mor – cefnogi (angen am fwy o ddarpariaeth a chreu gwaith yn y gymuned)
- Dafarn Drip –dim sylw
- Pen Slates - dim gwrthwynebiad os yw'n gweddu i'r ardal ac yn dilyn canllawiau'r Cyngor Sir am ddatblygiadau yn yr AHNE.

- Pen y Gogarth - Cafwyd dau lythyr o gŵyn gan drigolion cyfagos. Nid oedd gan yr aelodau wrthwynebiad am dyrbin gwynt mewn egwyddor, ond yn pryderu am y lleoliad ac am dynnu sylw'r adran gynllunio at y camarweinion yn y cais.

## **7 Materion Ariannol**

- 7.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol -  
Ysgol Gynradd Penysarn - £10 (Gwobr Gwyn Roberts)  
ROSPA £211.20 (Archwiliad cae chwarae)  
Anglesey Mowers - £480.00 (Bark)  
UHY Hacker Young - £246.00 (Archwiliad)  
Carli Evans-Thau - £17.00 (Torch i'r gof golofn)
- 7.2 Archwiliad Allanol - mae ffurflen UHY Hacker Young wedi ei ddychwelyd ac maent yn hapus a'r hyn a flwydynwyd am y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## **8 Polisiau**

Mae angen edrych ar fabwysiadu polisiau'r Cyngor. Mae modelau ar gael fel man cychwyn. Penderfynu y dylai Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Elfyn Hughes a'r Clerc gael at ei gilydd i drafod ymhellach cyn cyflwyno dogfennau i weddill yr aelodau.

CET  
DG,  
HFW  
TEH

## **9 Gohebiaeth**

- 9.1 Cais am arian gan Gymdeithas y Leinws - cytuno trafod yn y cyfarfod nesaf
- 9.2 Cais am arian gan Shelter Cymru – cytuno trafod yn y cyfarfod nesaf
- 9.3 Cyngor Sir Ynys Môn - gwybodaeth am gyfarwyddyd cynllunio atodol yn ymwneud ag adeilad niwclear newydd yn Wylfa.
- 9.4 Cyngor Sir Ynys Môn - gwybodaeth am ymgynghoriad ar y strategaeth dai lleol 2014-19. Gofynnwyd am sylwadau erbyn Medi 26.
- 9.5 Un Llais Cymru - llythyr yn amlinellu cynigion ar gyfer eu hystyried yn y cyfarfod blynyddol.
- 9.6 Newyddlen ddiweddaraf Chwarae dros Gymru.
- 9.7 Rhifyn diweddaraf Clerks and Councils Direct
- 9.8 Newyddlen Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Môn
- 9.9 Un Llais Cymru – gwybodaeth am hyfforddiant yng ngogledd Cymru
- 9.10 Digwyddiad Ynni Cymunedol - Cafwyd gwahoddiad i ddigwyddiad yn Llangefni 18/9/2014 wedi ei drefnu gan Fenter Môn. Gofynnwyd i'r Clerc fynychu ac adrodd yn ôl.

CET

## **9 Unrhyw Fater Arall**

- 9.1 Deallwyd na fydd Fferm Wynt Rhiannon yn cael ei ddatblygu.

## **10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 14/10/2014**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.35 o'r gloch.